COVID-19 a newidiadau cyflogaeth yng Nghymru

Proffiliau cryno

Cathrine Winding, Christian Heathcote-Elliott a Dr Ciarán Humphreys

Mai 2021

Mae'r proffiliau cryno hyn yn tynnu gwybodaeth ynghyd o adroddiadau COVID-19 a'r newidiadau i gyflogaeth yng Nghymru. Maent yn cyflwyno gwybodaeth trwy lens chwe phroffil yn ymwneud â phobl ifanc a chyflogaeth.

Mae'r proffiliau cryno yn cynnwys:

Ffeithiau allweddol	Ystadegau ac effaith ar newidiadau i gyflogaeth yn ymwneud â COVID-19 a nodwyd trwy adolygu llenyddiaeth lwyd ac wedi ei chyhoeddi
Mewnwelediad	Mewnwelediad ar effeithiau ac atebion a gasglwyd o sampl o bobl ifanc (18-24 oed), sefydliadau'r trydydd sector sydd yn cefnogi pobl ifanc a gwneuthurwyr a dylanwadwyr polisi
Ymyriadau addawol	Ymyriadau polisi a nodwyd trwy fapio tystiolaeth yn systematig sydd yn edrych yn addawol o ran lleihau effeithiau newidiadau i gyflogaeth yn ymwneud â COVID-19 a gwella canlyniadau iechyd a thegwch iechyd

Mynediad i'r farchnad lafur

Roedd Jane (18) ar fin dechrau prentisiaeth mewn peirianneg. Roedd yn llawn cyffro i fod yn dysgu crefft fyddai'n rhoi'r sgiliau a'r profiad iddi gael swydd dda er mwyn iddi allu symud allan o dŷ ei rhieni. Fodd bynnag, nid oedd yn gallu dechrau ei phrentisiaeth am fod cymaint o weithlu'r cwmni ar ffyrlo. Ceisiodd Jane gael gwaith rhan-amser yn y sector lletygarwch ond cafodd ei thref enedigol ei heffeithio'n wael gan y pandemig

Effaith ar gyflogaeth a llesiant

Ffeithiau

- Mae prentisiaid ifanc yn fwy tebygol o fod wedi cael eu rhoi ar ffyrlo
- Daeth llai o brentisiaethau i ben yn 2020. Cafodd 7,770 eu rhoi ar ffyrlo ar ddiwedd Mai (21.9% o'r holl brentisiaethau rhwng Mawrth a Gorffennaf 2020)
- Mae'n anodd i'r rheiny sydd yn gadael yr ysgol i gael swydd am fod llawer yn dechrau eu bywyd gwaith mewn galwedigaethau yn y sectorau sydd wedi cau
- Cynnydd o 5 pwynt canran ymysg menywod mewn addysg yn 2020 yn y DU

Mewnwelediad

- Y prinder hyfforddiant wyneb yn wyneb yn anodd, yn arbennig ar gyfer dysgu galwedigaethol
- Dysgu ar-lein yn arwain at rywfaint o allgáu digidol
- Llwybrau at gyflogaeth wedi eu hamharu, yn arbennig ar gyfer pobl o dan anfantais
- Cystadleuaeth gynyddol am swyddi lefel mynediad gan bobl hŷn â phrofiad o gyflogaeth
- Dywedodd rhai pobl ifanc y byddent yn derbyn unrhyw swydd

"Rwy'n credu i bobl fel fi sydd yn dysgu crefft ac yn ceisio dysgu, does dim byd mewn gwirionedd – nid ydych yn gallu gwneud crefft ar-lein, nid wyf yn gallu rhoi carreg mewn wal ar-lein. Felly does dim aseswyr i ddod allan i'm gweld. Ar hyn o bryd, rwyf yn aros yn fy unfan. Nid wyf yn cael unrhyw gymwysterau, dim byd. Nid yw'r colegau ar agor." ***(Gwryw, mewn addysg)***

Atebion

Ymyriadau addawol

- Buddsoddi mewn ymyriadau sydd yn cynnig cymorth cyflogaeth, arweiniad gyrfa, hyfforddiant galwedigaethol a phrentisiaethau
- Rhaglenni gweithredol yn darparu hyfforddiant, creu swyddi a chymorth i chwilio am swyddi

Mewnwelediad

- Cynllun Kickstart sydd yn werthfawr ond yn gallu bod yn fiwrocrataidd
- Gallai 'Cynnig wedi ei warantu' gynnwys cyflogaeth â thâl am chwe mis gyda gwarant o gyfweliad am swydd ar y diwedd, profiad gwaith, lleoliadau, hyfforddeiaethau a phrentisiaethau â chymhelliant gan gyflogwyr
- Cynlluniau prentisiaethau iau ar gyfer pobl 14-16 oed
- Cyrsiau hyfforddiant hygyrch, am ddim
- Cyngor gyrfaoedd gwell a chymorth ar gyfer pobl ifanc

"Byddwn i'n dweud, o safbwynt cyflogwr, ac eisiau cymryd rhan, ac yn gwneud ceisiadau am gyfleoedd Kickstart, ein bod wedi gweld diddordeb mawr yng Nghymru. Os yw'r cyflogwyr hynny'n gweld bod y berthynas yn effeithiol ac yn darparu ymgeiswyr o ansawdd da ar eu cyfer, gobeithio bydd hynny'n ein helpu i fod mewn lle gwell" ***(Gwneuthurwr penderfyniadau)***

Di-waith

Ers gadael yr ysgol, roedd Fiona (23) wedi cael hyfforddiant trin gwallt a bellach yn rheolwr yn ei salon lleol. Cafodd ei rhoi ar ffyrlo yn ystod y cyfnod clo cyntaf, ond yn yr ail gyfnod clo, aeth perchennog y salon i'r wal a chollodd Fiona ei swydd. Dyma'r tro cyntaf i Fiona fod allan o waith ers gadael y coleg ac roedd yn poeni am fynd i ddyled a dod o hyd i swydd arall am ei bod yn gwybod bod llawer o bobl eraill yn yr un sefyllfa â hi

Effaith ar gyflogaeth a llesiant

Ffeithiau

- Fe wnaeth nifer y bobl sydd yn hawlio Credyd Cynhwysol bron dyblu rhwng Mawrth a Gorffennaf 2020
- Cynyddodd lefelau diswyddo bedwarplyg o'u cymharu â 2019, yr uchaf ers 2009
- Cynnydd uwch mewn cyfraddau diweithdra ieuenctid ar gyfer grwpiau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig na phobl ifanc gwyn
- Cynyddodd y gyfradd diweithdra o 3.3% yn Ch1 i 4.6% yn Ch4 yn 2020

Mewnwelediad

- Y pandemig wedi dwysáu'r heriau sydd eisoes yn bodoli o ran dod o hyd i waith
- Pryder bod pobl ifanc yn llai tebygol o dderbyn credyd cynhwysol (gall hyn fod oherwydd sancsiynau Credyd Cynhwysol)
- Rhai pobl ddi-waith wedi defnyddio hyn fel cyfle i greu llwybrau gyrfa a mynd yn fwy entrepreneuraidd
- Heriau gwledig

"Byddwn i'n dweud ei fod yn cael effaith wael ar fy iechyd meddwl. Rydych yn bendant yn sylwi arno gyda'r diffyg amrywiaeth yn eich bywyd. Mae bob dydd yr un peth yn dydy, mae wedi bod yr un peth ers amser hir?"
(Gwryw, 18-24, di-waith)

Atebion

Ymyriadau addawol

- Polisïau gweithredol y farchnad lafur: addysg a hyfforddiant; rhaglenni creu swyddi; cymorth i chwilio am swyddi
- Polisïau goddefol y farchnad lafur: polisïau budd-dâl diweithdra ond gall sancsiynau budd-dâl fod yn gysylltiedig â dim budd o ran iechyd neu niwed

Mewnwelediad

- Datblygu ymyriadau presennol lle y bo'n bosibl
- 'Cymunedau am Waith' i gynyddu cyflogadwyedd
- 'System budd-daliadau Cymru' gydlynus
- Gwella trafnidiaeth gyhoeddus

"Y ffordd orau o baratoi rhywun am swydd yw rhoi swydd iddynt. Yr hyn yr ydym wedi ei ganfod yn y gorffennol gyda phethau fel Twf Swyddi Cymru ac ymyriadau eraill yw os ydym yn rhoi cymhorthdal i gyflogwyr i ddarparu lleoliadau ar gyfer pobl ifanc, mae hynny'n helpu'n aruthrol"
(Gwneuthurwr penderfyniadau)

Ar ffyrlo

Gadawodd Peter (24) y brifysgol gyda gradd dda a chyda'i brofiad blaenorol mewn manwerthu, cafodd swydd reoli o dan hyfforddiant mewn cadwyn o fwytai. Roedd wedi bod ar ffyrlo ers y cyfnod clo cyntaf ac roedd sïon y byddai'r cwmni'n cau rhai o'i fwytai. Er bod Peter yn teimlo'n lwcus ei fod wedi cael ei gefnogi'n ariannol yn ystod y pandemig, roedd yr ansicrwydd am ei ddyfodol yn ei roi o dan straen ac roedd yn ystyried ailhyfforddi.

Effaith ar gyflogaeth a llesiant

Ffeithiau

- 316,500 o weithwyr ar ffyrlo ym Mai 2020 - tua 22% o weithlu Cymru
- 155,500 ar ffyrlo ers 31 Rhagfyr 2020
- Roedd y gyfradd ymgymeriad cyffredinol yn 28.9% ym Mehefin 2020
- Pobl ifanc, menywod, pobl ar dâl isel a grwpiau lleiafrifoedd ethnig wedi eu heffeithio fwyaf gan y sectorau gafodd eu cau
- Rhai sectorau wedi cael eu heffeithio'n fwy nag eraill (yn ogystal â chael eu heffeithio gan Brexit)

Mewnwelediad

- Heriau iechyd meddwl (diffyg cymdeithasu, straen ariannol oherwydd gostyngiad mewn tâl ac ansicrwydd yn ymwneud â'r cynllun ffyrlo yn dod i ben)
- Ansicrwydd yn ymwneud â'r cynnydd posibl yn y gyfradd ddiweithdra wrth i'r Cynllun Cadw Swyddi Coronafeirws ac Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogaeth ddod i ben

"Roedd fy nhaliad ffyrlo cyntaf yn un eithaf uchel, ond erbyn hyn, gyda fy nhaliad ffyrlo olaf, mae'n eithaf isel. Mae wedi cymryd tua phedwar can punt oddi wrthyf, ac mae wedi cael effaith fawr arnaf, o weld fy slip tâl heddiw, a'i weld yn mynd i lawr. Nid oeddwn yn gwybod beth i'w wneud"
(Benyw, 18-24, ar ffyrlo)

Atebion

Ymyriadau addawol

- Ymyriadau cyflogaeth penodol wedi eu dylunio i ddiogelu poblogaethau sydd yn gweithio rhag helbulon y farchnad lafur a achoswyd gan y pandemig (e.e. cynllun ffyrlo, oedd yn gysylltiedig â chanlyniadau iechyd meddwl gwell na'r rheiny oedd yn cael eu gwneud yn ddi-waith)
- Cynllun Kickstart
- Wythnos waith fyrrach

Mewnwelediad

- Mae'r cynllun ffyrlo yn cael ei ystyried yn llwyddiannus
- Yn bwysig i gefnogi cronfeydd ailsgilio ar gyfer y rheiny yn y sectorau sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf
- Mwy o ffocws ar 'swyddi gwyrdd' ac addasu i newidiadau mewn sectorau

"Darparu cyrsiau hyfforddiant newydd, a pheidio â gwneud i ni dalu. Ar gyfer swyddi gwahanol, er eich bod mewn math gwahanol o waith, os ydych eisiau dysgu rhywbeth arall, gallent ddarparu hynny. Mwy o amrywiaeth yn fy marn i, heb unrhyw gost. Neu gost bach iawn"
(Benyw, 18-24, ar ffyrlo)

Rhieni a gofalwyr

Mae Gwen (28) yn rhiant sengl. Cyn y pandemig, roedd ei rhieni'n helpu gyda'r gofal plant ac roedd un o'i phlant yn mynd i feithrinfa. Roedd yn gweithio fel rheolwr prosiect mewn banc. Ers y pandemig, mae gofal plant wedi bod yn broblem fawr. Er bod gweithio gartref wedi arbed amser iddi yn teithio, mae'n colli'r cyswllt cymdeithasol oedd ganddi gyda chydweithwyr. Mae hefyd wedi cael llai o arian ac wedi cael anhawster yn talu'r biliau.

Effaith ar gyflogaeth a llesiant

Ffeithiau

- Mewn arolwg yn y DU, roedd bron 65% o famau ar ffyrlo yn beio diffyg gofal plant
- Roedd 14.5% o'r holl deuluoedd yn deuluoedd rhiant unigol yn 2019 – naw allan o ddeg yn fenywod
- Roedd y gyfradd tlodi mewn gwaith ar gyfer rhieni sengl yn 16/17-18/19 yn 27% (dwbl y cyfartaledd cenedlaethol)

Mewnwelediad

- Fe wnaeth cau ysgolion a dysgu ar-lein effeithio ar rieni a rhieni sengl â phlant ifanc yn arbennig
- Mynediad cyfyngedig i rwydweithiau cymorth ffurfiol ac anffurfiol
- Gall colli lwfans gofalwr gael effaith niweidiol ar y gallu i astudio

"Byddai fy mam yn casglu [fy mab] ar ôl ysgol, am 12, ac yn cwrdd â fi rhywle am 6pm pan oeddwn yn gorffen fy ngwaith. Roedd yn hawdd iawn ond ers COVID, mae wedi bod yn anodd. Mae fy mam yn y categori risg uchel. Rwyf yn mynd i'r gwaith gyda rhywun sydd yn risg uchel ac mae fy mam yn risg uchel, felly nid ydych yn gallu cymysgu"
(Benyw, 18-24, plentyn dibynnol)

Atebion

Ymyriadau addawol

- Gwasanaethau gofal plant (oriau am ddim ac ansawdd) yn cael ei gysylltu ag iechyd a datblygiad plant gwell
- Lwfansau teulu fel budd-daliadau gofal plant
- Absenoldeb rhieni (cynenedigol, absenoldeb rhieni ar ôl genedigaeth, seibiau bwydo ar y fron)
- Ymyriadau o fudd-dâl i waith (cymorth ariannol; cymhellion i chwilio am gyflogaeth a mynd i mewn i'r farchnad lafur (neu ailymuno)

Mewnwelediad

- PaCE (Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth) – cefnogi rhai pobl yng Nghymru â phlant dibynnol yn effeithiol
- Byddai darpariaeth gofal plant gwell, cost isel neu am ddim yn gwneud gwahaniaeth i gyfleoedd cyflogaeth

"Pe byddai'r feithrinfa yn gallu cynnig dau ddiwrnod llawn yr wythnos i ni a thri hanner diwrnod yr wythnos. Mae hynny'n golygu bod y ddau ohonom yn gallu gweithio dau ddiwrnod llawn yr wythnos a gwneud y gwaith rhyngom wedyn"
(Benyw, 18-24, plentyn dibynnol)

Cyflogedig – gwaith o ansawdd da

Roedd Paul (40) yn gweithio yn adran gynllunio'r awdurdod lleol. Mae wedi bod yn gweithio gartref ers dechrau'r pandemig ac mae ei gyflogwr wedi bod yn gefnogol iawn iddo'n gweithio oriau hyblyg er mwyn iddo allu darparu gofal i'w fam. Roedd ei reolwr yn cael cyfarfodydd gyda'i dîm bob wythnos ac roedd gan yr awdurdod lleol wasanaeth cymorth cyfrinachol. Roedd Paul wedi dod i arfer â'r cyfarfodydd rhithiol ond roedd yn edrych ymlaen at weld ei gydweithwyr unwaith eto.

Effaith ar gyflogaeth a llesiant

Ffeithiau

- Roedd pobl mewn swyddi o ansawdd da yn llai tebygol o gael eu rhoi ar ffyrlo, colli eu swydd neu gael llai o oriau
- Os ar ffyrlo, roedd pobl mewn swyddi incwm isel, da yn fwy tebygol o weld eu tâl yn cael ei effeithio (yn debygol o fod yn ennill mwy na'r terfyn ffyrlo o £2500/y mis)

Mewnwelediad

- Yn llai tebygol o sôn am broblemau iechyd a llesiant ond y swydd yn dal yn llawn straen ac yn effeithio ar iechyd meddwl
- Unigrwydd a diflastod oherwydd diffyg cymdeithasu
- Pobl yn teimlo eu bod yn cael mwy o gefnogaeth gan eu cyflogeion yn gyffredinol
- Mae newidiadau i amgylchiadau cyflogaeth wedi gweithredu fel catalydd ar gyfer dilyn uchelgais i rai

"Roeddwn i'n eithaf lwcus mewn gwirionedd am fy mod wedi cadw fy incwm arferol ond ar y dechrau, am y pum mis cyntaf, cefais ganiatâd i beidio â mynychu'r gwaith gan fod gan fy mam asthma. Yn lwcus iawn, roeddent yn dal i fy nhalu, ni wnaethant dorri fy nghyflog, a gadael i mi weithio gartref"
(Benyw, 18-24, cyflogaeth ddiogel)

Atebion

Ymyriadau addawol

- Wythnos waith fyrrach i wella iechyd meddwl
- Deddfwriaeth diogelu cyflogaeth i gael mwy o bobl i mewn i waith teg, da
- Trefniadau hyblyg wedi eu rheoli gan gyflogeion yn debygol o effeithio'n gadarnhaol ar iechyd corfforol
- Gallai hyblygrwydd y farchnad lafur ynghyd â system lles cymdeithasol gref effeithio ar iechyd

Insights

- Sicrhau bod rhai swyddi yn fwy deniadol a diogel – e.e. iechyd a gofal cymdeithasol (gwneud gofal yn yrfa â phosibiliadau ar gyfer cymwysterau pellach)
- Ffocws ar 'swyddi gwyrdd', ailsgilio a sgiliau trosglwyddadwy
- Mae gan y sector cyhoeddus rôl yn gwneud swyddi ar gael ar gyfer pobl ifanc
- Cysylltedd digidol ar gyfer pobl ifanc difreintiedig

"Rydym eisiau i bobl fod mewn cyflogaeth ddiogel, deg, gyda thâl, ond rwy'n credu bod yn rhaid i ni fod yn realistig am sefyllfa'r farchnad ar hyn o bryd, ac i rai pobl mae'n ymwneud â chymryd y cam cyntaf ar y daith – cael y profiad, yna gallu gwneud cynnydd"
(Gwneuthurwr penderfyniadau)

Cyflogedig – gwaith o ansawdd gwael

Roedd Lewis (26) yn gweithio i gwmni dosbarthu ar gontract dim oriau. Roedd yn newydd i'r ardal pan ddechreuodd y pandemig ac er ei fod yn dal i allu gweithio, yn wahanol i'w ffrindiau, roedd peidio â gwybod pa oriau y byddai'n eu gweithio bob wythnos yn ei roi o dan straen ac ar rai diwrnodau, roedd yn gorfod gweithio 12 awr heb lawer o saib. Roedd y cyflog yn isel ac roedd e'n ei chael hi'n anodd cyllidebu oherwydd natur achlysurol y gwaith.

Effaith ar gyflogaeth a llesiant

Ffeithiau

- Roedd tua 12.4% o weithwyr wedi eu cyflogi mewn gwaith ansicr yn 2018
- Roedd tlodi mewn gwaith ar 14% yn 2019 ac roedd diwydiannau fel bwyd, cyfanwerthu, llety a manwerthu yn wynebu rhai o'r cyfraddau tlodi mewn gwaith uchaf
- Roedd gweithwyr mewn swyddi ansicr 11 gwaith yn fwy tebygol o brofi diweithdra yn ystod y pandemig

Mewnwelediad

- Mwy o geiswyr/ymgeiswyr am swyddi oherwydd diswyddiadau a llai o swyddi gwag
- Llai o bwysau masnachol i fabwysiadu arferion gwaith teg – "unrhyw swydd yn well na dim swydd"
- Patrymau sifft amrywiol wedi cael effaith ar iechyd meddwl
- Ni allai pobl fforddio peidio â gweithio ac yn cyflwyno eu haelwyd i'r posibilrwydd o COVID-19

"Rwy'n dal ar gontract dim oriau, yr wyf wedi bod arno ers ryw bedair blynedd bellach. Rwyf wedi gofyn iddynt am gontract oriau, y mae gennyf hawl iddo. Ond maent yn cadw gwrthod"
(Benyw, 18-24, plentyn dibynnol)

Atebion

Ymyriadau addawol

- Deddfwriaeth diogelu cyflogaeth (cyfreithiau sydd yn hwyluso perthnasoedd mewn cyflogaeth; yn diogelu hawliau pobl mewn cyflogaeth; yn diogelu cyflogeion rhag cael eu trin yn annheg)
- Incwm Sylfaenol Cyffredinol
- Trosglwyddiadau arian parod a chredydau treth

Mewnwelediad

- 'Safbwynt holistaidd' o botensial pobl ifanc
- Cynyddu isafswm cyflog a'r cyflog byw
- Sicrhau llais i bobl ifanc
- Cryfhau partneriaeth gymdeithasol trwy'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol
- Sicrhau bod busnesau yn cael cyllid cyhoeddus i ddarparu gwaith teg

"Gallem wneud contractau dim oriau yn anghyfreithlon. Dylid cyflwyno gofynion ar gyfer rhestrau staff tymor hwy. Gallem wneud telerau ac amodau eraill yn ymwneud â thâl salwch, tâl gwyliau, hawliau i bobl â chyfrifoldebau gofalu, yn ofynnol"
(Gwneuthurwr penderfyniadau)

Mwy o wybodaeth

Mae'r proffiliau cryno yn dod â chanfyddiadau o'r gyfres hon ynghyd:

- Alma Economics. COVID-19 and employment changes in Wales: Promising interventions to improve health and health equity. 2021. Public Health Wales NHS Trust

- Beaufort Research. COVID-19 and employment changes in Wales: Insights for policy – young people, employment and health. Qualitative research findings. 2021. Public Health Wales NHS Trust

- Winding, C., Heathcote-Elliott, C. & Humphreys, C. COVID-19 and employment changes in Wales: What we know about current and future impacts. 2021. Public Health Wales NHS Trust

Am fwy o wybodaeth am y gwaith hwn cysylltwch â'r Uned Penderfynyddion Ehangach Iechyd:
PHW.Determinants@wales.nhs.uk

Cydnabyddiaeth

Dymuna'r awduron gydnabod:

- Jyoti Atri, Louise Brown, Jennifer Davies, Lowri Gwilym ac Andrea Parr o Fwrdd Prosiect Newidiadau i Gyflogaeth yn Ymwneud â COVID-19 am eu sylwadau defnyddiol wrth ddatblygu'r proffiliau hyn.

- Y bobl ifanc, sefydliadau'r trydydd sector a gwneuthurwyr a dylanwadwyr polisïau a gymerodd ran yn y gwaith mewnwelediad a gynhaliwyd gan Beaufort Research

- Alma Economics am wneud y mapio tystiolaeth systematig a chynhyrchu'r offeryn mapio tystiolaeth.